Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 303

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cyllid ar gyfer Ardal 43 – Y Depot**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Caffi a arweinir gan bobl ifainc yw'r Depot, sy'n cael ei redeg fel man diogel gan Ardal 43 yng Ngheredigion mewn partneriaeth â phobl ifainc.

Mae'r Depot yn cynnig gwasanaeth agored a chynhwysol ar gyfer pobl ifainc 14 – 25 oed sydd mewn perygl o ddioddef a chyflawni trosedd.

Maent yn gweithio gyda phob unigolyn ifanc i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â bregusrwydd.

Mae'r Depot yn grymuso ac yn cefnogi hawl pobl ifainc i gael mynediad at wasanaethau cymorth, cwnsela a chyngor seiliedig ar dystiolaeth o safon uchel yn lleol er mwyn gwella eu cyfleoedd bywyd ar gyfer dyfodol gwell.

Yn ddiweddar, bu gwaith adeiladu helaeth yn y Depot i greu gofod mwy o faint a mwy effeithiol ar gyfer y rhai sy'n ei ddefnyddio. Mae'r prosiect wedi gofyn am arian i wneud y lle'n fwy croesawgar ar gyfer y defnyddwyr i ganiatáu amgylchedd diogel a chyfforddus mewn cefnogi datblygiad personol cadarnhaol.

Argymhellir bod CHTh yn cymeradwyo'r cais ar gyfer £9,5000 fel cyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn Ailhyfforddi Gyrwyr.

**Argymhelliad:**
Cyfrannu £9,500 tuag adnewyddu ac addurno'r Depot, Ardal 43 yng Ngheredigion.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 29/06/23**